



Astudiaeth Achos buddion System Rheoli Llyfrgell ar y cyd WHELP: Prifysgol Caerdydd a GIG Cymru

Mae'r astudiaeth achos hon yn un o dair a gwblhawyd gan Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru (WHELP) fel astudiaeth ansoddol gyflenwol i'r adroddiad ar fuddion gan Cambridge Econometrics a noddwyd gan Jisc.

Crynodeb

Mae'r astudiaeth achos hon, ar gyfer Prifysgol Caerdydd a'r GIG yng Nghymru, wedi nodi sawl budd sy'n deillio o brosiect System Rheoli Llyfrgell WHELP.

Mae'r buddion a nodwyd yn deillio o fabwysiadu system newydd ond hefyd o weithio ar draws amrywiaeth o sefydliadau fel rhan o gonsortium WHELP.

Ymhlith y buddion allweddol a nodwyd gan y Brifysgol, mae:

- Gwella'r broses dendro – gwell manyleb a gwerthuso a llai o faich gwaith – drwy rannu gwaith ar draws sefydliadau WHELP
- Proses weithredu well, drwy ddysgu gwersi o waith y carfanau cynharach
- Fe wnaeth caffael system rheoli llyfrgell fel rhan o gonsortium alluogi llyfrgelloedd y GIG yng Nghymru i ddewis a gweithredu system safon uchel a fyddai wedi bod yn anfforddiadwy heb y disgownt cyflenwr a gynigwyd i WHELP
- Cyfleoedd dysgu parhaus drwy ymgysylltu ag arbenigwyr ar draws WHELP, gan ddarparu hyfforddiant a gwasanaethau cyfoethocach a mwy trylwyr
- Darparu gwasanaeth sydd wedi galluogi staff Systemau i ail-gyfeirio eu hadnoddau at weithgareddau 'gwerth ychwanegol'
- Mwy o botensial i ehangu gwasanaethau System Rheoli Llyfrgell drwy ymarferoldeb ychwanegol nad yw ar gael mewn systemau a etifeddwyd
- Gwell integreiddio gyda systemau busnes eraill y Brifysgol

Cefndir

Wedi ei sefydlu ym 1883, Prifysgol Caerdydd yw un o brifysgolion ymchwil mwyaf blaenllaw Prydain, a oedd yn 5ed ymhlith prifysgolion y Deyrnas Unedig yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 o ran ansawdd, ac yn 2il o ran effaith. Mae gan y Brifysgol dros 30,000 o fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn.

Ceir dros 1.2 miliwn o lyfrau print yn yr 13 o lyfrgelloedd sydd gan y Brifysgol, a gellir cyrchu dros 500,000 o lyfrau a chyfnodolion ar-lein. Mae'r llyfrgelloedd, sydd wedi eu lleoli ar draws campysau'r Brifysgol, yn arbenigo mewn pynciau penodol.

Cyn prosiect System Rheoli Llyfrgell ar y cyd WHELP, roedd y system etifeddodd Prifysgol Caerdydd yn system rheoli llyfrgell Ex Libris Voyager wedi ei gweinyddu'n lleol, a system ddarganfod Primo. Yn ogystal, roedd Prifysgol Caerdydd yn cynnal y gwasanaeth ar gyfer Llyfrgelloedd GIG Cymru.

Mae Llyfrgelloedd GIG Cymru yn rhan o bartneriaeth AWHILES, sy'n darparu gwybodaeth iechyd i helpu â gofal cleifion, addysg, hyfforddiant ac ymchwil ar gyfer staff GIG Cymru, a staff a myfyrwyr Prifysgol Caerdydd ar leoliadau mewn ysbytai ledled Cymru. Mae llyfrgelloedd wedi eu lleoli ym mhob un o ysbytai mawr Cymru. Mae 24 o lyfrgelloedd gyda'i gilydd.

Prifysgol Caerdydd oedd hefyd yn rheoli'r system a etifeddwyd ar gyfer Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Buddion bod yn rhan o gonsortiw

Gwneud y mwyaf o rym prynu a rhyddhau adnoddau ar gyfer prosiectau eraill

Byddai Prifysgol Caerdydd wedi caffael system newydd.

Fodd bynnag, drwy weithredu fel rhan o gonsortiw, galluogwyd y Brifysgol i gael gostyngiadau ar gyfer y system dan sylw, gan roi hyblygrwydd i sianelu'r gwaith caffael sy'n deillio o hynny ac arbedion gweithredol i feisydd gwasanaeth eraill.

Mae'r cydweithio ar gaffael wedi bod o fudd penodol i lyfrgelloedd GIG Cymru hefyd, na fuasai wedi bod yn bosibl iddynt dendro ar eu pen eu hunain ar gyfer system newydd, o gofio am yr adnoddau staff cyfyngedig ym mhob llyfrgell.

Lleihau risg drwy rannu gwybodaeth ar y cam gweithredu

Drwy gronni gwybodaeth ac arbenigedd, cafwyd mewnwelediadau gweithredol i ymarferoldeb a helpodd hynny i fynd i'r afael â risgiau posibl, gan ddarparu sicrwydd ar gyfer staff rheng flaen a systemau.

Er enghraifft, fe wnaeth Caerdydd elwa ar ddysgu o ymagwedd Prifysgol Abertawe at fudo e-gyfnodolion, gan liniaru nifer o risgiau a nodwyd.

Elwa ar adnodd consortiw pwrpasol

Mae'r broses gydweithredu wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda'r fantais bod cydweithredu yn y dyfodol yn fwy tebygol erbyn hyn. Hwyluswyd hyn drwy gael adnodd annibynnol pwrpasol yn gweithio ar draws y consortiw, sydd wedi helpu timau gwasgaredig i 'asio'.

Mae gweithio fel consortiw wedi helpu hefyd i gael mwy o arian allanol – er enghraifft, cyllid Jisc ar gyfer yr astudiaeth o fuddion. Roedd gan Jisc ddiddordeb penodol mewn rhannu'r hyn a ddysgodd y consortiw yn fwy eang, ac roedd yn barod i ddarparu cyllid i hwyluso hyn, rhywbeth na fyddai wedi digwydd pe bai'r prosiect wedi ei gyfyngu i un sefydliad.

Datblygu manyleb gofynion mwy cynhwysfawr

Datblygwyd y fanyleb tendro a'r fframwaith gwerthuso ar y cyd â sefydliadau eraill, a ddaeth â grŵp ehangach o wybodaeth arbenigol i'r broses.

Er enghraifft, roedd gan Brifysgol Bangor system rheoli adnoddau electronig yn barod, ac fe wnaeth y ddogfen dendro elwa ar allu defnyddio profiad Bangor yn y maes hwn. Cyfrannodd Prifysgol Caerdydd fewnbwn lefel uchel at y fanyleb a'r fframwaith hefyd, gan gynnwys mewnbwn gan yr adran TG. Y canlyniad oedd manyleb tendro wedi ei pharatoi'n well, a arweiniodd at ddarparu cynnyrch gwell.

Gwell hyfforddiant a datblygu staff

Bu buddion drwy rannu hyfforddiant ar y cyd ar draws WHELF. Roedd cyfres o gyfarfodydd bychan (cyfarfodydd dan ofal un o'r safleoedd partner i drafod neu ymchwilio i bwnc penodol) ar gyfer meysydd gwahanol o ymarferoldeb yn arbennig o werthfawr.

Rhannu arbenigedd a gwybodaeth

Drwy fod y garfan olaf i fynd yn fyw, elwodd Prifysgol Caerdydd a GIG Cymru ar brofiadau sefydliadau a oedd wedi rhoi systemau ar waith mewn carfannau cynharach. Roedd hyn nid yn unig o ran materion a gododd yn sgil gweithredu, ond hefyd y polisïau a'r gweithdrefnau diwygiedig roedd pobl eraill yn eu haddasu i'r system newydd. Roedd y polisi awto-adnewyddu oedd ar waith ym Mhrifysgol Abertawe, a aeth yn fyw yn y garfan gyntaf, yn enghraifft dda.

Mae rhannu gwybodaeth i ddatblygu adroddiadau ar y cyd hefyd wedi bod yn ddefnyddiol o ran dadansoddeg, sydd wedi galluogi'r Brifysgol i gyflawni mwy â llai o adnoddau, gan sicrhau gwell defnydd o amser staff ar draws y bartneriaeth.

Gwella proffil y gwasanaeth llyfrgell

Ynghyd ag aelodau eraill y consortiwm, llwyddodd Llyfrgell Prifysgol Caerdydd i gael ei henwebu ar gyfer Gwobr Arwain a Rheoli Times Higher Education yn 2015, a wnaeth ennyn cydnabyddiaeth a chynyddu proffil y sefydliadau unigol yn ogystal â'r cydweithio. Mae Prifysgol Caerdydd wedi cyfrannu at gyflwyniadau cenedlaethol a rhyngwladol am y fenter, ynghyd ag aelodau eraill y consortiwm, a Rheolwr y Rhaglen.

Gwasanaeth o ansawdd uwch drwy defnyddio System Rheoli Llyfrgell cenedlaeth nesaf

Integreiddio'n well gyda systemau busnes eraill allweddol y Brifysgol

Mae'r system newydd yn cydamseru â systemau rheoli eraill y Brifysgol, fel y system rheoli hunaniaeth. Mae hyn yn golygu bod data myfyrwyr yn cael ei ddiweddarau'n awtomatig yng nghronfa ddata defnyddwyr Alma wrth gofrestru gyda'r Brifysgol, gan leihau llwyth gwaith i'r Tîm Systemau a lleihau oedi i fyfyrwyr o ran cael gafael ar adnoddau llyfrgell. Fel arfer, yn ystod y cyfnod cofrestru, roedd hon yn dasg lafurus enfawr i Dîm Systemau'r Llyfrgell, gan fod yn rhaid rhedeg adroddiadau sawl gwaith y

dydd am sawl wythnos wrth i fyfyrwyr gofrestru ac roedd disgwyl cael mynediad ar unwaith at y gwasanaethau Llyfrgell. Bellach, gwneir y gwaith yn awtomatig heb fawr ddim ymyrraeth gan y Tîm Systemau. Yn achos staff y brifysgol, mae eu cardiau adnabod bellach wedi eu cofrestru'n awtomatig ar system y Llyfrgell fel y gallant ddechrau defnyddio'r Llyfrgell ar unwaith yn hytrach nag aros nes bydd eu cardiau wedi cael eu cofrestru drwy fynd i lyfrgell.

Yn achos GIG Cymru, nid yw'r buddion wedi eu gwireddu eto yn y maes hwn, gan fod systemau cofrestru gwahanol ar waith. Fodd bynnag, gan fod y system yn sicr yn cefnogi cofrestru defnyddwyr yn awtomatig, mae hyn yn cael ei drafod yn frwd ar gyfer ei weithredu i ddefnyddwyr y GIG yn y dyfodol

Hyblygrwydd systemau ar y we ac ar borwr

Un o'r prif fuddion oedd bod y system newydd ar y we, a oedd yn gofyn am lawer llai o gymorth ar y rhyngwyneb defnyddiwr/dyfais. Gan fod Alma yn seiliedig ar borwr, nid oes yn rhaid i'r Tîm Systemau osod cleientiaid Windows ar gyfrifiaduron personol, gan arwain at arbedion o ran amser staff. Gwireddwyd y buddion i GIG Cymru hefyd, lle yn y gorffennol roedd yn rhaid i gleientiaid y staff gael eu postio i lyfrgelloedd ar CD-ROM ac yna eu llwytho ar gyfrifiaduron lleol. Mae hyn oll yn bellach yn cael ei reoli o bell.

Yn achos staff gweithredol, mae gallu mynd â dyfeisiau at lyfrau, o gymharu hynny â chario llyfrau at gyfrifiaduron desg lle gosodwyd y system, hefyd yn arbed amser ac ymdrech.

Mae symud o letya lleol i system cwmwl hefyd wedi arwain at fuddion.

Mae uwchraddio systemau yn llawer haws ac yn fwy hwylus nag o'r blaen, gyda llai o effaith ar amser staff. Yn y gorffennol, roedd uwchraddio'r system yn defnyddio llawer o adnoddau staff, ac roedd gofyn am sawl mis o ymdrech a phrofi. Mae amllder yr uwchraddio (bob mis, yn hytrach na bob blwyddyn) hefyd yn darparu ar gyfer datrys chwilod yn gyflymach.

Bydd y newid hwn yn galluogi'r Tîm Systemau i ganolbwyntio ar weithgareddau eraill.

Integreiddio gwell rhwng casgliadau argraffedig ac adnoddau electronig

Mae llif gwaith caffael a chatalogio yn fwy integredig, gan symleiddio'r meysydd swyddogaethol allweddol - er enghraifft, wrth reoli tanysgrifiadau cylchgronau print ac electronig. Dywed y staff y bu gostyngiad yn nifer y deunyddiau print sy'n aros i'w catalogio, gan fod y trwygyrch wedi cyflymu, ac mae'r llyfrau'n cyrraedd y silffoedd yn gynt.

Dadansoddeg well yn gyrru gwasanaeth gwell

Mae creu adroddiadau ac archwilio'r system yn awr yn gyflymach ac yn haws, sydd er enghraifft yn galluogi rheoli casgliadau yn well.

Mae enghreifftiau pellach lle mae dadansoddeg wedi llywio gwelliannau gwasanaeth yn cynnwys cynhyrchu adroddiad ar y defnydd o eitemau benthyciadau undydd, a ddangosodd fod y mathau hyn o fenthyciad yn arwain at ddefnydd isel o ddeunyddiau rhestr ddarllen, gan fod yn well gan fyfyrwyr fenthycia eitemau gyda chyfnodau benthyg hwy. Mae'r adroddiad hwn wedi arwain at argymhelliad, sy'n cael ei weithredu ar hyn o bryd, i newid yr holl eitemau benthyciadau undydd i fathau eraill o fenthyciadau.

Gwell amrywiaeth o ymarferoldeb yn gwella profiad cwsmeriaid

Mae rhai buddion sy'n wynebu'r cwsmer wedi cael eu nodi yma - yn fwyaf nodedig, i Brifysgol Caerdydd, mae cyflwyno ymarferoldeb newydd fel adnewyddu awtomatig wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn lefel y dirwyon a godir gan y llyfrgell. Roedd hwn yn faes allweddol o anfonlonrwydd ymysg myfyrwyr, ac fe'i codwyd fel mater o bryder mawr i fyfyrwyr yn y 'cyflwyniad ysgrifenedig myfyrwyr' blynyddol a gynhyrchwyd gan Undeb y Myfyrwyr ar gyfer Cyngor y Brifysgol. Mae lefel y dirwyon wedi gostwng yn sylweddol ers cyflwyno'r system newydd - gydag ychydig dros £12,000 o ddirwyon wedi eu codi erbyn diwedd mis Ionawr 2017, o gymharu hynna â thros £264,000 o ddirwyon a godwyd yn ystod 2015/16 ar ei hyd

Nid yw GIG Cymru wedi cyflwyno nodwedd adnewyddu awtomatig, ond ar y cyfan, nid yw llyfrgelloedd yn codi dirwyon ar eu defnyddwyr. Fodd bynnag, mae llyfrgelloedd y GIG wedi adrodd am fuddion eraill o ran gwasanaeth.

Cyn gweithredu, adroddodd staff Llyfrgelloedd y GIG mai'r ymarferoldeb y gofynnwyd amdano amlaf gan gwsmeriaid oedd gweld hanes eu benthyciad, sef rhywbeth nad oedd yn bosibl yn Voyager ond y darperir ar ei gyfer yn Alma.

Dyweddodd staff y GIG hefyd na allent gael adnoddau e-lyfrgell y GIG drwy Voyager yn flaenorol, sy'n cael sylw yn awr gydag adnoddau yn cael eu hychwanegu at Primo, gan roi gwell gwasanaeth i staff a defnyddwyr y Llyfrgell fel ei gilydd.

Atodiad

Darperir rhagor o wybodaeth gefndirol am Brifysgol Caerdydd a GIG Cymru yma, gan gynnwys:

- Cyflwyno'r prosiect
- Sefyllfa wrthffeithiol, sy'n disgrifio'r hyn y byddai'r Brifysgol a GIG Cymru wedi ei wneud pe na baent wedi mynd ar drywydd ymagwedd consortiwm fel rhan o WHELP
- Methodoleg ar gyfer yr astudiaeth achos

Cyflwyno'r prosiect

Roedd amrywiaeth o bethau a sbardunodd Prifysgol Caerdydd a GIG Cymru i gaffael system rheoli llyfrgell newydd. Roedd y system a etifeddwyd yn agosáu at ddiwedd ei bywyd ac roedd systemau'r genhedlaeth nesaf yn addo llawer o fuddion: cynyddu effeithlonrwydd llif gwaith gan ryddhau staff i ddarparu rhagor o 'werth ychwanegol' mewn cyfnod o ddisgwyliadau cynyddol gan fyfyrwyr; arbedion effeithlonrwydd, gan alluogi llyfrgelloedd i wneud mwy gyda llai; a gwella gwydnwch ac argaeledd y system.

Roedd cynnal y prosiect fel rhan o gonsortiwm WHELP hefyd yn cynnig y cyfle i leihau costau caffael a chostau parhaus y system, yn ogystal â'r potensial i gynnig gwasanaethau gwell ledled Cymru drwy gydweithio pellach unwaith y rhoddwyd y system ar waith.

Cyflawnwyd y camau gweithredu ar draws WHELP mewn tri cham. Roedd Prifysgol Caerdydd a GIG Cymru yn y cam terfynol. Yn gynnar yn 2016, dechreuodd y gwaith ar weithredu, ac fe'i cwblhawyd ar 3 Awst 2016.

Rheolwyd y prosiect yng Nghaerdydd a'r GIG gan dîm prosiect a oedd yn atebol i Uwch Weithgor Rheoli Llyfrgell y Brifysgol, drwy Fwrdd Rhaglen y System Rheoli Llyfrgell.

Sefydlwyd grwpiau defnyddwyr, a oedd yn cynnwys staff y Llyfrgell ar draws meysydd swyddogaethol, ar gyfer ymgynghori yn ystod y camau cynllunio a gweithredu, ac ar gyfer rhaeadru gwybodaeth i'r holl staff o fewn y gwasanaethau llyfrgell, ac i gwsmeriaid y llyfrgell.

Cafodd cynrychiolwyr o bob grŵp o ddefnyddwyr eu neilltuo i gysylltu â'u cymheiriaid yn y sefydliadau partner i ddysgu o'u profiadau.

Cafodd mewnbwn GIG Cymru ei reoli drwy Arweinydd Partneriaethau'r GIG, a neilltuwyd aelod o'r Tîm Systemau Llyfrgell i gysylltu â llyfrgelloedd y GIG ynghylch eu gofynion (y naill a'r llall wedi eu lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd).

Roedd rheolwr rhaglen WHELP yn gweithio o Brifysgol Caerdydd, gan oruchwylio ar lefel y consortiwm. Ar y lefel leol, cafodd y rheolwr prosiect ym Mhrifysgol Caerdydd gymorth gan dîm gweithredu o arbenigwyr TG a phersonél Llyfrgell a oedd hefyd wedi eu lleoli yng Nghaerdydd.

Senario wrthffeithiol

Yn absenoldeb prosiect System Rheoli Llyfrgell ar y cyd WHELP, mae'n debygol y byddai Prifysgol Caerdydd wedi caffael system newydd - un o'r genhedlaeth nesaf wedi ei gweinyddu drwy'r cwmwl - o fewn yr un amserlen. Mae'n debygol y byddai GIG Cymru wedi bod yn rhan o'r caffael annibynnol, ac mae'n bosibl y byddai Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru wedi bod yn rhan o'r ymarfer caffael hefyd.

Methodoleg astudiaeth achos

Cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws a chyfweliadau unigol er mwyn cael dealltwriaeth lawn o'r buddion i Brifysgol Caerdydd. Llywiwyd hyn hefyd gan waith cynharach a gynhaliwyd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a oedd wedi cwblhau 'adolygiad systemau' o'r cyfleuster llyfrgell ar y cyd newydd gyda'r cyhoedd a staff.

Casglwyd adborth ansoddol drwy dri grŵp ffocws gyda staff y Llyfrgell a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Caerdydd. Recriwtiwyd y staff a ddaeth i'r grwpiau ffocws i gynrychioli amrywiaeth o rolau o fewn y gwasanaeth; Cynorthwywyr Llyfrgell sydd â chyfrifoldeb sylfaenol dros wasanaethu cwsmeriaid llyfrgell gydag ymholiadau o ddydd i ddydd, Staff Caffaeliadau, Llyfrgellwyr Casgliadau sy'n gyfrifol am gatalogio a metadata, a Llyfrgellwyr Pwnc sydd â chyfrifoldeb dros ymgysylltu academaidd.

Yn ogystal, cynhaliwyd cyfweliadau un i un gydag aelodau allweddol eraill o'r staff, gan gynnwys y Dirprwy Lyfrgellydd, rheolwyr newid, aelodau o dîm gweithredu'r prosiect a rheolwr y prosiect. Cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb hefyd gyda staff y GIG yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd ac Ysbyty Singleton, Abertawe.

I gael barn grŵp mor eang ag y bo modd, cyflwynwyd canlyniadau dros dro'r astudiaeth mewn gweithdy ar gyfer y grŵp prosiect ehangach gan yr holl sefydliadau partner.

Y bwriad yn wreiddiol oedd arolygu sylfaen defnyddwyr y Llyfrgell fel rhan o'r astudiaeth hon, ond nid oedd hynny'n bosibl gan fod y rhan fwyaf o'r astudiaeth wedi ei chynnal tra'r oedd y boblogaeth myfyrwyr ar wyliau.